

Clywed y Gair

“Dywedodd yr archoffeiriad Hilceia wrth Saffan yr ysgrifennydd, ‘Cefais lyfr y gyfraith yn nhŷ’r Arglwydd.’” (adn. 8)

Beth am ddarllen 2 Brenhinoedd 22:1–10 ac yna myfyrion

Mae'r darlleniad heddiw yn cynnwys un o'r storïau rhyfeddol yna yn yr Hen Destament sydd mor syml, ond eto yn cynnig gwirionedd sydd yn abl i drawsnewid. Yn dilyn gorchymyn gan y Brenin Joseia, mae'r deml yn Jerwsalem yn cael ei hadnewyddu. Mae seiri a seiri meini yn brysur wrth eu gwaith, ac, yn sydyn, fe wneir darganfyddiad rhyfeddol. Mae Hilceia, yr archoffeiriad, yn darganfod yr Ysgrythurau. Ni ddylai fod unrhyw beth yn rhyfedd am hynny; yn wir, ymhle y byddech chi wedi disgwyl eu darganfod? Ond yn yr achos hwn, nid oedd yr Ysgrythurau wedi eu darllen yn gyhoeddus ers amser maith. Roedd y sgröliâu wedi bod yn hel llwch a heb eu hagog. Cafodd y Brenin Joseia ei hysbysu o'r darganfyddiad, a phan ofynnodd i'r gair a roddwyd i'w cyndadau gael ei ddarllen ar goedd, mae ei enaid yn cael ei dorri wrth wrando. Fel arwydd o edifeirwch, mae'n rhwygo'i ddillad.

Wedi gwneud hyn, mae'n casglu ei bobl ynghyd ac yn darllen iddynt Lyfr y Cyfamod – Beibl ei ddydd (gw. pennod 23). Wrth iddynt wrando ar Air yr Arglwydd, maent hwythau, fel Joseia, yn cael eu trawsnewid gan ymrwymo'u hunain i fyw wrth y Gair i'r dyfodol. Wedi hynny, mae'r glanhau go iawn yn digwydd yn y deml ac yn y tir. Roedd hyd yn oed y deml wedi ei llenwi ag eilunod a gwrthrychau oedd yn cael eu cysylltu ag addoli duwiau paganaidd. Fe rwygodd Joseia hwy allan o'r deml a'u llosgi.

Mae llawer o eglwysi bellach wedi anghofio hyd yn oed darllen yr Ysgrythurau. Yr unig amser y mae'r Beibl yn cael ei agor yw pan mae'r pregethwr yn cyhoeddi ei destun. Mewn rhai eglwysi, nid yw'r testun hyd yn oed yn dod o'r Beibl, ond efallai o waith rhywun fel Shakespeare. Os oes un peth y buasai rhywun yn ei ddymuno ar gyfer yr Eglwys ar draws y byd, fy nymuniad fyddai gweld rhan o bob gwasanaeth yn cael ei rhoi i ddarllen y Beibl heb unrhyw sylwadau. Mae yna werth ysbrydol anghyffredin yn y darllen cyhoeddus o'r Ysgrythurau.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Deut. 31:12–13; Neh. 8:1–12

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam y mae darllen yr Ysgrythurau yn gyhoeddus yn bwysig?
2. Beth all hyn ei gyflawni?

Gweddi

O Dad, maddau i ni ei bod yn well gennym wrando ar grŵp yn canu na rhywun yn darllen y Gair. Maddau i ni, Arglwydd ein Duw, ac adnewyddu eto yn dy Eglwys yr awydd i wneud y Beibl yn ganolog i bob peth yr ydym yn ei wneud. Yn enw Iesu. Amen.